Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan (AWLR)

1. Cyflwyniad

Mae GIG Cymru yn gartref i saith sefydliad iechyd, sy'n cynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae PCGC yn cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n cefnogi GIG Cymru trwy ddarparu cyfres gynhwysfawr o wasanaethau cymorth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Mae PCGC yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gyflenwi Gwasanaethau Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol i Feddygon Teulu a Phractisiau Meddygon Teulu yng Nghymru. Fel rhan o weithredu Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Sylfaenol, mae PCGC a Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg a Gofal Sylfaenol PCGC.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'Ni' isod yn cyfeirio at Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel corff a "letyir" gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Rydym yn cydnabod yr angen i drin gwybodaeth Bersonol mewn modd teg a chyfreithlon. Ni fydd unrhyw wybodaeth Bersonol a gedwir gennym ni yn cael ei phrosesu oni bai y gellir bodloni'r gofynion am brosesu teg a chyfreithlon. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn darparu crynodeb o sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hynny, drwy ddisgrifio'r canlynol:

- Y categorïau o wybodaeth bersonol yr ydym yn eu trin;
- Y diben(ion) y mae'n cael ei phrosesu ar ei gyfer/ar eu cyfer;
- Y bobl y gall y data gael eu rhannu â nhw.

Mae'r Hysbysiad hwn hefyd yn esbonio pa hawliau sydd gennych i reoli sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth.

Ein manylion cyswllt

	Gwasanaethau Cyflogaeth y Bartneriaeth Cydwasanaethau	**Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth PCGC**
Cyfeiriad	Pencadlys PCGC Uned 4-5 Cwrt Charnwood Heol Billingsley	Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd

	Parc Nantgarw CF15 7QZ	CF14 3UZ
E-bost	NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk	Tim.knifton@wales.nhs.uk
Ffôn	01792 860498/860490	

2. Pa fath o wybodaeth sydd gennym

Er mwyn cyflawni ein gweithgareddau a'n rhwymedigaethau o fewn Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan a'n dyletswyddau prosesu fel gweinyddwr Data ac Adrodd y Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan ar gyfer Meddygon Teulu Gofal Sylfaenol a Phractisiau Meddygon Teulu yng Nghymru, ar hyn o bryd rydym yn casglu a phrosesu'r wybodaeth ganlynol:

Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan:

- Rhif Cyfeirnod Meddygon Locwm Cymru Gyfan; sy'n unigryw i'r meddyg teulu cofrestredig
- Rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Enw cyntaf
- Cyfenw
- Ar Restr Cyflawnwyr Meddygol
- Statws
- Dyddiad y Cais
- Dyddiad Cofrestru
- Dyddiad Cofrestru Diwygiedig
- Anfonwyd E-bost Cadarnhad
- Dyddiad Tynnu yn ôl
- Cyfeiriad E-bost Cyswllt

Rhestr Cyflawnwyr Meddygol Cymru Gyfan:

- **Statws Meddyg Teulu:**
  - Wedi'i gynnwys
  - Wedi'i gynnwys dros dro
  - Wedi'i gynnwys yn amodol
  - Wedi'i gynnwys yn achlysurol
  - Wedi'i gynnwys - Gwaharddiad o'r Cyngor Meddygol Cyffredinol / y Cyngor Deintyddol Cyffredinol / y Cyngor Optegol Cyffredinol
  - Wedi'i gynnwys dros dro - gydag amodau
- **Ar y rhestr fel:**
  - Pob un ac eithrio
    - Meddyg Teulu dan Hyfforddiant (F2)

- Shropdoc yn unig

Byrddau Iechyd:

- Iechyd Lleol
- Ardaloedd o Fwrdd Iechyd Lleol y mae unigolyn yn hapus i weithio ynddynt

3. Sut rydym yn cael gafael ar yr wybodaeth a pham mae hi gennym ni

Aseswyd yr wybodaeth er tegwch ei phrosesu ac mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio sut y cafodd yr wybodaeth ei darparu a'i phrosesu:

- Mae'r wybodaeth Bersonol rydym yn ei phrosesu at ddibenion Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan yn cael ei bwydo i'r system o'r Ddogfen Gofrestru wreiddiol a gwblhawyd gan bob meddyg teulu. Mae'r broses hon i wneud cais i gofrestru bellach wedi symud i Locum Hub Wales gan fod hyn yn cynnig ffordd symlach o gofrestru.

- Mae Locum Hub Wales yn anfon e-bost hysbysu at PCGC gyda'r wybodaeth a nodir yn Adran 3. Mae'n bwysig nodi bod PCGC yn dal i brosesu pob cais felly mae'n cael ei brosesu'n lleol yn y sefydliad.

- Rydym yn cyrchu'r Rhestr Cyflenwyr Meddygol (MPL) trwy fewngofnodi diogel i gadarnhau eu bod ar y rhestr gan ddefnyddio'r Rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol a ddarperir gan y meddyg teulu. Dim ond os yw statws meddyg teulu wedi'i gymeradwyo ar y Rhestr Cyflenwyr Meddygol y gallwn ei gofrestru ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan. Bydd y meddyg teulu yn nodi'r ardaloedd lle byddai'n well ganddo weithio ac rydym yn cofnodi'r rhain ar y Rhestr Cyflenwyr Meddygol. Gall y meddyg teulu benderfynu a yw'r dewisiadau hyn yn cael eu rhannu â phractisiau meddygon teulu ai peidio.

- Bydd Gweinyddwr Data ac Adrodd PCGC yn defnyddio'r cyfeiriad cyswllt e-bost a ddarperir i gadarnhau cofrestriad i'r meddyg teulu. Rydym yn cadw'r wybodaeth hon i'n galluogi i gofrestru unrhyw feddyg teulu yng Nghymru sydd am gael ei gynnwys o dan y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) ar gyfer unrhyw waith Locwm a wneir yng Nghymru. Mae Canllawiau Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol yn nodi bod yn rhaid i unrhyw Locwm sy'n gweithio yng Nghymru fod wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan a gweithio yn unol â Thelerau'r Gofrestr i fod

yn gymwys i indemniad o dan y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

- Yn ogystal â'r Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan, rydym yn casglu gwybodaeth gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol PCGC sy'n ein hysbysu o newid i Statws Meddygon Teulu neu os ydynt am gael eu tynnu o'r Rhestr Cyflenwyr Meddygol. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol gan y gallai effeithio ar eu hyswiriant o dan yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cysylltu â Gweinyddwr Data ac Adrodd y Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan i gadarnhau bod meddyg teulu wedi'i gofrestru ar amser penodol os bydd ymholiad neu bryder ynghylch y meddyg teulu hwnnw a chadarnhau bod yr amodau ar gyfer yswiriant yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol wedi'u bodloni.
- Rydym yn defnyddio'r data i roi gwybod i unigolion sydd wedi cofrestru am newidiadau i'r Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan ac i roi gwybod am wasanaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gofrestr.
- Rydym yn defnyddio'r data i boblogi adroddiadau dienw ar gyfer Ystadegau Swyddogol Meddygon Locwm yng Nghymru.
- Yng Nghymru, mae'r sail gyfreithiol i Lywodraeth Cymru gasglu a phrosesu data ar y gweithlu meddygon teulu wedi'i nodi yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Gall Gweinidogion Cymru, yn unol â'u pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf y GIG (Cymru) 2006, gasglu a phrosesu data ar y gweithlu practis cyffredinol yng Nghymru.

O dan Erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Cyfreithlondeb Prosesu), y seiliau cyfreithlon yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(b) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni contract y mae gwrthrych y data yn rhan ohono;

(c) Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi;

(e) Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;

(f) Mae angen prosesu at ddibenion y buddion cyfreithlon y mae'r rheolwr neu drydydd parti yn eu dilyn

4. Beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi inni er mwyn:

- Eich cofrestru chi ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan a'ch cynnwys o dan y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol
- Cofrestru eich Statws Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol ar y Rhestr Cyflawnwyr Meddygol, gan sicrhau y gall Practisiau Meddygon Teulu gael mynediad i'r Rhestr Cyflawnwyr Meddygol ar gyfer y Cyhoedd a chwilio am Feddyg Teulu Locwm y maent yn ymgysylltu ag ef a chadarnhau bod ganddo Yswiriant Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol
- Diweddaru'r ardaloedd rydych yn hapus i weithio ynddynt ar y Rhestr Cyflawnwyr Meddygol
- Ein galluogi i ddarparu gwybodaeth am y gweithlu gywir a chyfredol ynghylch Meddygon Locwm er mwyn cyflawni rhwymedigaethau adrodd i Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru
- Cynorthwyo i weinyddu a chyfranogi'r cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI).
- Rhoi gwybod i'r holl unigolion cofrestredig am newidiadau, buddion a mentrau perthnasol Strategaeth Gynaliadwyedd Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru, i gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu, Y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), GPWales a Locum Hub Cymru.

Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â PCGC (adrannau mewnol), Llywodraeth Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Byrddau Iechyd GIG Cymru (Arweinwyr Gofal Sylfaenol) a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Mae nifer o resymau pam ein bod yn rhannu gwybodaeth. Gall hyn fod o ganlyniad i'r canlynol:

- Ein rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio â threfniadau contractiol.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio â'r angen i gyflawni tasg gyhoeddus.
- Ein dyletswydd i gydymffurfio ag unrhyw Orchymyn Llys y gellir ei orfodi.
- Rhannu gwybodaeth ag adrannau mewnol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo a'u rhedeg yn esmwyth (h.y. Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol).

Mae unrhyw ddatgeliad o wybodaeth Bersonol bob amser yn cael ei wneud fesul achos, gan ddefnyddio lleiafswm y data personol sydd eu hangen ar gyfer y diben a'r

amgylchiadau penodol, gyda'r rheoliadau diogelwch priodol yn eu lle. Dim ond gyda'r asiantaethau a'r cyrff hynny sydd ag "angen gwybod" neu lle rydych chi wedi cydsynio i ddatgelu'ch gwybodaeth Bersonol i bobl o'r fath y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.

5. Sut rydym yn storio'ch gwybodaeth

Mae'ch gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar weinyddion data PCGC sydd wedi'u lleoli mewn lleoliad canolog yn y DU. Rheolir mynediad i'r system trwy fewngofnodi diogel gyda chaniatâd lefel mynediad ar gyfer rôl y defnyddiwr a rhoi mynediad i'r defnyddwyr hynny i'r ardaloedd sydd eu hangen arnynt yn unig.

Wrth dynnu a dilysu data at ddibenion Cyfrifiad Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru, bydd PCGC yn tynnu'r data o Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan sydd wedyn yn ddienw ac yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru trwy borth rhannu ffeiliau diogel y GIG. Bydd PCGC yn cadw'r data yn ddiogel ar weinydd PCGC gyda chefnogaeth NWIS i gwblhau'r ymarfer dilysu.

Dim ond cyhyd ag y bo angen y byddwn yn cadw gwybodaeth ac y byddwn yn adolygu unrhyw ddata a gedwir gennym am fwy na thair blynedd. Byddwn yn storio data yn electronig ac yn cael gwared ar wybodaeth trwy ei dileu yn ddiogel.

Gan fod Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan yn system weithlu a gynhelir gan Weinyddwr Data ac Adrodd Cofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan PCGC, cynghorir bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r Polisi Rheoli Cofnodion lleol, a bod amserlenni cadw a dinistrio sy'n pennu'r isafswm amser y dylid cadw cofnodion.

At ddibenion yswiriant Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI), cynghorir bod PCGC yn cadw cofnodion meddygon teulu nad ydynt bellach wedi'u cofrestru ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cael manylion cofrestru os oes angen o dan y cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

6. Diogelwch eich Gwybodaeth

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i warchod eich gwybodaeth Bersonol a chyfrinachedd o ddifrif ac rydym yn ymrwymedig i gymryd mesurau rhesymol i sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth Bersonol yr ydym yn gyfrifol amdanynt, boed ar gyfrifiadur neu ar bapur.

Ni fydd eich gwybodaeth Bersonol yn cael ei gwerthu i unrhyw drydydd parti gennym ni nac unrhyw asiantaeth sy'n ei dal at y dibenion a restrir uchod.

O dan God Ymddygiad Cyfrinachedd y GIG, mae gofyn i ni hefyd ddiogelu'ch gwybodaeth, rhoi gwybod i chi sut y defnyddir eich gwybodaeth, a lle y bo'n briodol, gadael i chi benderfynu os y gellir rhannu eich gwybodaeth a sut.

Mae pawb sy'n gweithio i'r GIG yn atebol i Ddyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin. Ni fydd gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol ond yn cael ei defnyddio at y dibenion yr ydych yn eu nodi ac yn rhoi'ch cydsyniad iddynt, oni bai ei fod yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

Mae pob cyflogwr GIG Cymru gan gynnwys PCGC wedi penodi Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n gyfrifol am reoli'r holl asedau gwybodaeth bersonol ac unrhyw risgiau a digwyddiadau cysylltiedig.

Mae'n ofynnol i'r holl staff sy'n trin gwybodaeth gyfrinachol gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn yr ystafell ddosbarth bob dwy flynedd. Bydd pob aelod o staff hefyd yn cwblhau modiwlau e-Ddysgu gorfodol ar-lein yn flynyddol.

Mae cwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth rheolaidd yn un o ofynion Deddfwriaeth Diogelu Data. Bydd yr hyfforddiant yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch defnydd diogel ac addas o wybodaeth Bersonol adnabyddadwy a chyfrinachol.

7. Beth os yw'r data sydd gan Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan yn anghywir?

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth sydd gennym yn gyfredol. Os bydd gwybodaeth bersonol sydd wedi'i storio ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan yn newid neu os yw'n anghywir ar hyn o bryd, mae'n bwysig eich bod chi'n adolygu hyn a chysoni hyn â'ch e-bost cadarnhad gwreiddiol neu'r hyn sydd yn eich Cyfrif Locum Hub Wales.

Cysylltwch â'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol er mwyn newid neu gywiro Statws Meddyg Teulu ar y Rhestr Cyflawnwyr Meddygol.

8. Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data bresennol, mae gennych hawliau yn cynnwys:

Eich hawl mynediad - Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

Eich hawl i gywiro - Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sy'n anghywir yn eich barn chi. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.

Eich hawl i ddileu - Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

Eich hawl i gyfyngu ar brosesu - Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau.

Eich hawl i wrthwynebu prosesu - Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Eich hawl i gludadwyedd data - Mae gennych hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth a roesoch i ni i sefydliad arall, neu i chi, mewn rhai amgylchiadau.

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os ydych yn gwneud cais, mae gennym un mis i ymateb i chi.

Os ydych yn dymuno gwneud cais, cysylltwch â ni yn

NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk
Ffôn: **01792 860498 / 0490** a / neu
Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC
Pencadlys PCGC
Uned 4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
CF15 7QZ

9. Sut mae cwyno?

Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â Swyddog Cwynion PCGC.

Os na allwn ddatrys eich cwyn, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anhapus â sut rydym wedi defnyddio'ch data. Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House

Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

www.ico.gov.uk

10. Pa gyfreithiau sy'n berthnasol o ran ymdrin â gwybodaeth bersonol?

Y gyfraith sy'n penderfynu sut y gall sefydliadau ddefnyddio gwybodaeth bersonol. Rhestrir y prif ddeddfwriaethau sy'n llywodraethu'r defnydd o wybodaeth isod:

- Deddf Diogelu Data 2018 y DU
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

O ran defnyddio'r wybodaeth sydd ar Gofrestr Meddygon Locwm Cymru Gyfan, mae'r gyfraith wedi'i nodi yn bennaf mewn Deddfwriaeth Diogelu Data.

At ddibenion y Ddeddf Diogelu Data, PCGC yw'r "Rheolydd Data" (y deiliad, defnyddiwr a phrosesydd) dros eich gwybodaeth.

11. Sut y gallwch gael mynediad i'ch data personol?

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data bresennol yn rhoi'r hawl i gael mynediad i'r wybodaeth a gedwir amdanoch chi. Rhaid i chi wneud eich cais yn ysgrifenedig i PCGC (gweler Adran 2).

Bydd rhaid i chi ddarparu'r canlynol:

- Gwybodaeth ddigonol [er enghraifft enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif staff, ayyb.] er mwyn gallu gwirio'ch hunaniaeth a dod o hyd i'ch data personol;
- Disgrifiad o ba wybodaeth yr ydych yn gwneud cais amdani i'n galluogi ei lleoli mewn modd effeithlon.

Ceisiwn gydymffurfio â cheisiadau mynediad at ddata personol mor gyflym â phosibl. Byddwn yn sicrhau ein bod yn delio â cheisiadau o fewn mis calendr o'u derbyn oni bai bod rheswm dros oedi y gellir ei gyfiawnhau o dan y ddeddfwriaeth gyfredol neu os oes angen eglurhad pellach.

12. Hysbysiad Diogelu Data

Yn ogystal â PCGC, mae pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yn 'Rheolwr Data' o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae disgwyl i ni roi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth ein bod yn prosesu gwybodaeth Bersonol a'r rhesymau dros wneud hynny. Mae'r manylion hyn ar gael yn gyhoeddus gan:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane,
Wilmslow, SK9 5AF
www.ico.gov.uk

13. Cyrff Eraill

Mae pob sefydliad GIG yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei reoli. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch i ddatgelu ac atal troseddau a thwyll. Hefyd efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n arolygu ac yn rheoli cronfeydd cyhoeddus.

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth amdanoch fel mater o drefn heb eich caniatâd pendant oni bai bod dyletswydd gyfreithiol / statudol arnom i wneud hyn.

14. Newidiadau i'n hysbysiad preifatrwydd

Ceisiwn adolygu ein Hysbysiad Preifatrwydd yn gyson a bydd yn cael ei adolygu wrth i'r canllawiau a'r gyfraith newid.